| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **4 Medi 2013** |
| **Awdur yr adroddiad:** | **Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor ynghylch cynnydd diweddaraf Archwilio Mewnol o ran ei ddarpariaeth gwasanaeth, darpariaeth sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth hybu gwelliannau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I roi'r diweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch:

- darparu ein Cynllun Sicrwydd ar gyfer 2013/14
- adroddiadau Archwilio Mewnol a gyflwynwyd
- ymateb y rheolaeth i faterion rydym wedi'u codi
- perfformiad Archwiliad Mewnol

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar gynnydd a pherfformiad Archwilio Mewnol hyd yn hyn yn 2013/14
- Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar a gyflwynwyd

## 4. Cynnydd Archwilio Mewnol

***Darparu Cynllun Sicrwydd Archwilio Mewnol 2013/14***

4.1. Mae Atodiad 1 yn darparu dadansoddiad o'n gwaith yn ystod 2013/14, o'i gymharu â'r Strategaeth Archwilio Mewnol. Mae'n cynnwys sgoriau sicrwydd a nifer o faterion a godwyd ar gyfer yr adolygiadau a gwblhawyd, y diffiniadau a ddefnyddiwyd i ffurfio ein sicrwydd archwilio a'r sgoriau a ddefnyddiwyd i asesu'r lefelau risg ar gyfer y materion a godwyd.

***Crynodeb o Adroddiadau Archwilio Mewnol Diweddar***

4.2. Mae ein hadroddiadau'n defnyddio lliwiau ar gyfer sgoriau sicrwydd fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| **Gwyrdd** | Sicrwydd Uchel | Risgiau a rheolaethau wedi'u rheoli'n dda |

| | | |
|---|---|---|
| **Melyn** | Sicrwydd Canolig | Risgiau wedi'u canfod ond gellir eu cynnwys ar lefel gwasanaeth |
| **Oren** | Sicrwydd Isel | Risgiau a ganfuwyd sydd angen cyfarfod gyda'r Cyfarwyddwr/Aelod Arweiniol |
| **Coch** | Dim Sicrwydd | Risgiau arwyddocaol wedi'u canfod sydd angen cynhadledd achos aelod / swyddog |

4.3. Ers fy adroddiad yng Ngorffennaf 2013, rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol. Mae adroddiadau crynodeb gweithredol a chynlluniau gweithredu wedi'u hatodi i'r adroddiad hwn er gwybodaeth bellach.

| Adroddiad Archwilio | Barn Archwilio | Materion a godwyd | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Risg gritigol (Coch) | Risg fawr (Oren) | Risg ganolig (Melyn) | |
| Ymrwymiad Lleihau Carbon | **Uchel** | 0 | 0 | 4 | Adolygiad dilynol o brosiect 2012/13 |
| Prawf Sicrwydd Systemau Ariannol 2012/13 | **Canolig** | 0 | 0 | 0 | Adroddiad cryno ar brofi Activedata yn unig |
| Strategaeth Ymadael Taith i Waith | **Canolig** | 0 | 0 | 2 | Adroddiad cryno'n unig |
| Gwasanaeth Maethu | **Canolig** | 0 | 0 | 2 | Adroddiad cryno'n unig |
| Gwasanaethau Tai (Rhenti a Diwygiad Lles) | **Canolig** | 0 | 0 | 8 | |
| Gweithrediadau Cefn Gwlad | **Canolig** | 0 | 0 | 7 | |
| Ffin rhwng rolau a chyfrifoldebau Cynllunio Addysg ac Adnoddau a Gwasanaethau Cyfrifyddiaeth. | **Amh.** | 0 | 0 | 0 | Adolygiad ymgynghori'n unig. Ni chyflwynwyd barn archwilio. |

### *Ymateb rheolwyr i'r materion a godwyd gan Archwilio Mewnol*

4.4. Mae'r mwyafrif o'n hadroddiadau Archwilio Mewnol yn nodi gwendidau risgiau a rheoli. Rydym yn sgorio'r rhain fel risg gritigol, risg fawr neu risg ganolig. Mae rheolwyr yn cytuno ar gamau i fynd i'r afael â'r risgiau, gan gynnwys cyfrifoldebau a therfynau amser.

4.5. Rydym yn adrodd ynghylch yr holl achosion lle nad ydyw rheolaeth yn llwyddo i ymateb i'n gwaith dilynol, neu lle maent yn mynd dros y dyddiad gweithredu y cytunwyd arno o fwy na thri mis. Mae'r Pwyllgor hwn yn penderfynu a oes angen cymryd camau pellach, er enghraifft, drwy alw'r bobl berthnasol i'w gyfarfod nesaf neu ofyn am adroddiad ysgrifenedig i esbonio'r diffyg cynnydd.

4.6. Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw faterion i'w codi gyda'r Pwyllgor.

### *Perfformiad Archwilio Mewnol*

| *Sicrwydd Hanfodol – pob targed 100%* |
|---|
| **Adolygiad o feysydd Sicrwydd Ansawdd y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Sicrwydd erbyn 31/03/14** |
| Hyd yn hyn, rydym wedi cwblhau 50% o’r prosiectau a gynlluniwyd, gyda disgwyl y bydd eraill yn cael eu cwblhau cyn 31 Mawrth 2014. |
| **Adolygiad o feysydd Sicrwydd Grantiau ac Ardystio y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Sicrwydd erbyn 31/03/14** |
| Hyd yn hyn, rydym wedi cwblhau 60% o’r prosiectau a gynlluniwyd, gyda disgwyl y bydd eraill yn cael eu cwblhau cyn 31 Mawrth 2014. |
| **Adolygiad o feysydd Sicrwydd Llywodraethu Corfforaethol y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Sicrwydd erbyn 31/03/14** |
| Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau hyn wedi eu trefnu ar gyfer yn ddiweddarach yn y flwyddyn er mwyn caniatáu amser ar gyfer cynnydd ar y Cynllun Corfforaethol. Hyd yn hyn, rydym wedi cwblhau 14% o’r prosiectau a gynlluniwyd. |
| **Adolygiad o’r meysydd Sicrwydd Risg Corfforaethol Uchel y cytunwyd arnynt yn y Cynllun Sicrwydd erbyn 31/03/14** |
| Mae disgwyl y bydd y naw prosiect yn cael eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2014. |

| *Safonau Cwsmer – pob targed 100%* |
|---|
| **Cysylltu â chwsmeriaid o leiaf 2 wythnos ymlaen llaw i drefnu dyddiad addas ar gyfer ein hymweliad** |
| Perfformiad cyfredol yn 100% |
| **Anfon y Ddogfen Cwmpasu Prosiect y cytunwyd arni at y cwsmeriaid cyn i ni ddechrau’r gwaith** |
| Perfformiad cyfredol yn 100% |
| **Anfon adroddiad drafft at y cwsmer o fewn 10 diwrnod gwaith o’r cyfarfod cau** |
| Perfformiad cyfredol yn 100% |
| **Anfon ein hadroddiad archwilio terfynol at y cwsmer o fewn 5 diwrnod gwaith o gytuno ar y drafft** |
| Perfformiad cyfredol yn 100% |
| |